**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17$^{eg}$ Mawrth 2008**

## DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU SEFYDLOG

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Cynnig diwygiadau i Orchmynion Sefydlog yr Awdurdod.

### Cefndir

**2.** Ym mis Mawrth 2007, penderfynodd yr Awdurdod i gynyddu'r nifer o aelodau annibynnol oedd yn gwasanaethu ar ei Bwyllgor Safonau o 3 i 4. O ganlyniad, rhaid diwygio Rheolau Sefydlog yr Awdurdod i adlewyrchu'r penderfyniad yma.

### Gwybodaeth

**3.** O dan reol sefydlog 2(2), mae unrhyw ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n cael eu cynnig a'u heilio yn aros wedi eu gohirio tan y cyfarfod nesaf. Felly, ni fydd y diwygiadau arfaethedig yn cael trafodaeth nac yn destun pleidlais tan gyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Mehefin 2008.

**4.** Wrth archwilio'r Rheolau Sefydlog, mae wedi dod yn amlwg fod nifer o ddiwygiadau eraill, yn bennaf rhai sy'n adlewyrchu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r Awdurdod a mân ddiwygiadau eraill, angen eu gwneud.

**5.** Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r diwygiadau arfaethedig wedi eu rhestru mewn fformat tabl yn yr atodiad sydd ynghlwm.

**Argymhelliad**

6. Nodi'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog restrwyd yn yr atodiad ynghlwm (os y'i cynigir a'i heiliwyd).